

Ymateb i Ymgynghoriad Cyngor Sir Gaerfyrddin i Gyllideb y Cyngor:

Mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn nad yw llymder yn rhesymol yn economaidd, ac, yn bwysicach, ei fod yn hynod o niweidiol i'n cymunedau a'r Gymraeg ac yn gorfodi pobl fregus a llai pwerus i dalu am gamgymeriadau'r cyfoethog.

Gwasanaethau mewn cymunedau bach sy'n cael eu gwasgu bob tro ym mhob ardal, sydd yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i bobl aros yn yr ardal i fyw a gweithio. Yma, y llyfrgelloedd fydd o bosibl yn cael eu colli drwy gau neu roi canghennau dan ofal cymunedol.

Yn wyneb cwtogi felly rydyn ni'n galw ar y cyngor i adolygu gwasanaethau, ond wrth wneud hynny fod edrych yn hytrach na dim ond ar gost a gwerth am arian fod ystyried gwerth ac effaith y gwasanaethau ar y gymuned ac ar bobl y sir.

Ymhellach i hyn mae gofyn i bobl ddewis rhoi rhai gwasanaethau yng ngofal cymunedau (ynghyd ag opsiynau eraill) yn rhoi pwysau pellach ar gymunedau gan roi disgwyliadau arnyn nhw i gynnal gwasanaethau ychwanegol a dal i wneud unrhyw waith cymunedol eu hunain; ac yn annheg heblaw bod cyllid gan gymunedau i gynnal y gwasanaethau hynny.

Ymateb i Ymgynghoriad Cyngor Sir Penfro i Gyllideb y Cyngor:

Mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn nad yw llymder yn rhesymol yn economaidd, ac, yn bwysicach, ei fod yn hynod o niweidiol i'n cymunedau a'r Gymraeg ac yn gorfodi pobl fregus a llai pwerus i dalu am gamgymeriadau'r cyfoethog.

Gwasanaethau mewn cymunedau bach sy'n cael eu gwasgu bob tro ym mhob ardal. Yma yn Sir Benfro mae ystyried lleihau cefnogaeth i rai gwasanaethau bws, does dim manylder ond y 'gwasanaethau mwy ymylol a llai eu defnydd' sy'n cael eu crybwyll. Yr ardaloedd hynny sydd anoddaf eu cyrraedd yn aml yw'r ardaloedd sydd fwyaf angen gwasanaethau o'r math, ac sydd gyda'r cyntaf i golli gwasanaethau. Mae cwtogi ar wasanaethau ar sail defnydd yn rhagfarnu yn erbyn ardaloedd gwledig, ac yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i bobl fyw yn yr ardaloedd hynny.

Yn wyneb cwtogi felly rydyn ni'n galw ar y cyngor i adolygu gwasanaethau, ond wrth wneud hynny fod edrych yn hytrach na dim ond ar gost a gwerth am arian fod ystyried gwerth ac effaith y gwasanaethau ar y gymuned ac ar bobl y sir.

O edrych ar rai argymhellion penodol:

* Rydym yn gweld cynyddu costau Treth Cyngor ar ail gartrefi yn ffordd o greu incwm ychwanegol, ac yn gallu bod yn ffordd o oresgyn y broblem fod nifer o dai yn wag am ran helaeth y flwyddyn. Er hynny dylai'r arian yma gael ei ddefnyddio i wella tai gwag, at gronfa dai fforddiadwy i'r prynu a'u rhentu.

* Byddai lleihau'r gronfa prynu llyfrau (19) yn gallu golygu fod llai o ddefnydd ar lyfrgelloedd a fyddai'n golygu bod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ddrytach i'w gynnal, gan mai yn ôl ffigyrau defnydd mae gwasanaethau yn cael eu mesur.

* Gallai rhai argymhellion arwain at golli swyddi, neu gwtogi oriau, er enghraifft lleihau'r gymhareb disgybl athro (20), a lleihau cynnal a chadw. Bydd hynny n ei dro yn rhoi pwysau ar deuluoedd ar draws Sir Benfro.

* Mae disgwyl i drigolion ddewis pa drefi neu gymunedau ddylai fod yn flaenoriaeth i gael 'canolfan gymunedol' yn annheg gan y bydd pawb yn dewis y cymunedau sydd agosaf a mwyaf cyfleus iddyn nhw.